Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Democratic Services/ Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 18 Mai 2023

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu o bell trwy Timau Microsoft ar **Dydd Mercher, 24 Mai 2023** am **09:30**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 8
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 22/11/22 a 01/02/23

4. Penodi Is-bwyllgor(au) Trwyddedu a Dirprwyo i Swyddogion — 9 - 10

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Nodyn: Bydd hwn o bell trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| <u>Cynghorwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> | <u>Cynghorwyr</u> |
|---|---|---|
| M Lewis | RM James | S J Bletsoe |
| R Williams | RJ Collins | H Griffiths |
| J Llewellyn-Hopkins | MJ Kearn | P W Jenkins |
| J E Pratt | H T Bennett | S Easterbrook |
| R J Smith | A R Berrow | |

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2022, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| R Williams | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | I Williams |
| R J Smith | RM James | RJ Collins | MJ Kearn |
| H T Bennett | A R Berrow | S J Bletsoe | H Griffiths |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P W Jenkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

9. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P Jenkins

10. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd S Bletsoe – Buddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda, gan fod ganddo ffrind agos sy'n berchen ar fodurdy ac sy'n cynnal profion MOT. Er nad yw'n berthnasol yn uniongyrchol i'r eitem, roedd yn berthnasol i'r adroddiad yn gyffredinol.

11. CYMERADWYO'R COFNODION

CYMERADWYWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu, a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022, yn cael eu cymeradwyo'n gofnod gwir a chywir.

12. TREFN PROFI TACSIS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu, adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i Aelodau am gais gan y fasnach dacsis i adolygu'r dull profion tacsis presennol, ac ystyried a hoffen nhw weld Swyddogion yn cyflawni astudiaeth o ddichonoldeb.

Nododd mai'r Cyngor oedd yr awdurdod trwyddedu ar gyfer rheoleiddio cerbydau hacni a llogi preifat, a'i brif rôl i'r perwyl hwnnw oedd sicrhau diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio tacsis a cherbydau llogi preifat, cyn rhoi trwydded a thrwy gydol cyfnod y drwydded.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu bod Adran 47 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 yn llywodraethu'r broses o brofi'r holl gerbydau modur, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i geir a bysus mini fod â Thystysgrif y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (MOT). Fodd bynnag, fel cerbydau sy'n cludo teithwyr, mae'r drefn brofi cerbydau presennol yn cynnwys elfennau sy'n berthnasol i dacsis a cherbydau llogi preifat yn benodol. Maent yn seiliedig ar y Safonau Arolygu Cenedlaethol a grëwyd gan y Gymdeithas Trafnidiaeth Gludo. Roedd y safonau hyn ar gael i'w gweld yn Atodiad A ar yr adroddiad, ac roedd copi o'r elfen brofi tacsis ar y drefn brofi i'w weld yn Atodiad B.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio ei bwerau dan Adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i'w gwneud hi'n ofynnol i bob cerbyd ddod i orsaf brofi MOT mewnol y Cyngor yng Nghyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd Ty Thomas, Newlands Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae trefn gytundebol ar waith i hwyluso'r gofyniad hyn, sy'n dod i ben yn 2024.

Eglurodd y gallai'r Cyngor, dan Adran 50, osod hysbysiad i berchennog cerbyd i ddod â'r cerbyd am brawf hyd at dair gwaith yn ystod unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn ardal y Cyngor. Mae'r polisi oedran presennol yn nodi bod cerbydau hyd at ddeng mlwydd oed yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn, a cherbydau hŷn yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

Mae'r elfen olaf ar ddiogelwch y cyhoedd wedi'i sicrhau drwy amodau trwydded, sy'n nodi mai perchennog y cerbyd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw i safon dderbyniol drwy gydol y drwydded, gydag ymarferion gorfodi'n cael eu cynnal gan swyddogion gorfodaeth trwyddedu.

Eglurodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu bod y Cyngor wedi derbyn sylwadau gan y fasnach dacsis, drwy Aelodau lleol, a deiseb yn cynnwys oddeutu 170 o lofnodion, i sicrhau bod tacsis yn gallu cael profion MOT mewn modurdai gwahanol. Nodir y manylion hyn ym mharagraff 4.2 yn yr adroddiad.

Nododd bod ymarfer ymchwil ar y we wedi'i gynnal i bennu sut roedd awdurdodau eraill yng Nghymru'n gweithredu'r drefn brofi tacsis. Roedd y canlyniadau i'w gweld yn Atodiad C yn yr adroddiad, ac roedd amrywiaeth o fodelau ar waith mewn Cynghorau eraill yng Nghymru.

Ychwanegodd y Swyddog mai prif ddyletswydd yr awdurdod trwyddedu o ran cerbydau â thrwyddedau oedd sicrhau bod y fflyd yn ddiogel ac mewn cyflwr addas i gludo aelodau'r cyhoedd.

O safbwynt trwyddedu, eglurodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu ei bod hi'n hanfodol, ni waeth pa drefn brofi oedd ar waith, bod y drefn honno'n cydymffurfio ag arfer gorau'r safonau Tacsis Cenedlaethol a'r profion MOT safonol.

Pe byddai Aelodau'n awyddus i Swyddogion ymchwilio i ddulliau amgen o gynnal y drefn profi tacsis, byddai angen astudiaeth o ddichonoldeb gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn gallu adrodd nôl i'r Pwyllgor gydag opsiynau i'w hystyried. Byddai'r astudiaeth o ddichonoldeb hefyd yn ystyried y trefniadau cytundebol presennol sy'n dod i ben yn 2024.

Yn olaf, nododd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu, y byddai'r astudiaeth o ddichonoldeb yn manteisio ar ddulliau sydd ar waith gan Awdurdodau Trwyddedu eraill, ac yn ystyried y pedwar model a restrir ym mharagraff 4.7 o'r adroddiad.

Ar ol cryn drafod, cafwyd consensws bod cynnal Astudiaeth o Ddichonoldeb fel y'i nodwyd yn yr adroddiad yn gynnig synhwyrol.

Er ei fod yn cefnogi hyn, gofynnodd Aelod a fyddai angen codi tâl am brofion ychwanegol o'r fath wrth ymchwilio i ddarparwyr MOT allanol?

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, bod Cyngor Dinas Caerdydd yn cael cefnogaeth yn rhan o'r Gwasanaethau hyn ac yn fanno, gallai gyrrwr gael prawf MOT gyda phrawf tacsi ychwanegol mewn modurdy, er bod

amrywiaeth o ran ffioedd. Roedd y rhan fwyaf yn codi tâl ychwanegol yn rhan o'r broses hon.

Nododd Aelod pe byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo Astudiaeth o Ddichonoldeb, ni fyddai'n cael ei gyflwyno mewn manylder i Aelodau nes 2023, ac nid oedd y Contract gyda Ty Thomas yn dod i ben tan 2024 yn ôl yr adroddiad. Felly gofynnodd a fyddai cynnal Astudiaeth o Ddichonoldeb ar ôl i'r Contract ddod i ben yn syniad gwell. Fel arall, a fyddem yn ystyried dirwyn i ben y Contract presennol yn fuan fel opsiwn arall pe byddai'r awgrym o yrwyr tacsis yn cael profion MOT allanol yn cael ei gymeradwyo?

Nododd y Swyddog Cyfreithiol y byddai angen Astudiaeth o Ddichonoldeb pe byddai Aelodau'n dewis mynd ar ôl hyn, er mwyn ystyried nifer o opsiynau posibl. Hefyd, byddai materion cytundebol penodol yn cael eu hadolygu, ochr yn ochr â hyn. Yna, byddai'r Astudiaeth o Ddichonoldeb yn amodol ar ymgynghoriad am 12 wythnos. Ar y cyfan, byddai hyn yn cymryd llawer o amser beth bynnag.

Cytunodd Aelodau i bleidleisio yn hyn o beth, ac yn dilyn y bleidlais

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cytuno'n unfrydol i roi caniatâd i Swyddogion gynnal astudiaeth o ddichonoldeb ar fodelau amgen o gyflawni ein dyletswyddau statudol o ran profi a thrwyddedu cerbydau hacni a llogi preifat.

(2) Bod adroddiad pellach yn dod gerbron y Pwyllgor yn 2023, er mwyn ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ganlyniad i'r uchod.

13. EITEMAU BRYS

Dim.

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MERCHER, 1 CHWEFROR 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| R Williams | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | R J Smith |
| RM James | RJ Collins | MJ Kearn | H T Bennett |
| A R Berrow | H Griffiths | P W Jenkins | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

I Williams a S J Bletsoe

15. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

16. NEWID ARFAETHEDIG I AMODAU TRWYDDED CERBYD HACNI AC AMODAU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad oedd yn ceisio diwygio amodau trwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat ynghyd ag amodau Trwydded Yrru ddeuol Cerbyd Hacni/Hurio Preifat er mwyn hybu diogelwch y cyhoedd, ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn dilyn ymgynghoriad gyda'r fasnach dacsis a'r gwasanaeth llogi preifat ynghylch y diwygiadau arfaethedig.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, wrth roi Trwydded Cerbyd Hacni, Trwydded Cerbyd Hurio Preifat, a Thrwydded Yrru ddeuol Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gall y Cyngor atodi unrhyw amodau y mae yn eu hystyried yn rhesymol angenrheidiol. Mae amodau trwydded yn hanfodol i hybu diogelwch y cyhoedd.

Mae cyfran o ddeiliaid trwydded/perchnogion cerbydau yn rhentu, prydlesu neu'n rhoi benthyg eu cerbyd i yrwyr trwyddedig eraill. Er bod y gweithdrefnau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai ddatgan pwy sy'n ymwneud â gosod neu gadw'r cerbyd ar ddechrau'r drwydded, nid yw'r amodau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai gadw cofnodion o bwy sy'n gyrru'r cerbyd drwy gydol yr amser. Gall hyn fod yn anhawster wrth ymchwilio i gwynion.

Mae'r awdurdod trwyddedu yn cynnig diogelu'r cyhoedd ymhellach drwy ychwanegu amod newydd at amodau'r Drwydded Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat fel y nodir yn adran 4.3 o'r adroddiad.

Gyda'r amod ychwanegol hon bydd yr awdurdod trwyddedu'n gallu sicrhau ei bod hi'n haws dod o hyd i'r rhai oedd yn gyrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat trwyddedig pan fyddant yn ymchwilio i gwynion neu'n cynorthwyo asiantaethau eraill.

Mae protocolau rhannu data amlasiantaethol eisoes yn eu lle i hysbysu'r awdurdod trwyddedu am faterion sy'n ymwneud â gyrwyr tacsis. Fodd bynnag, cynigir bod amod newydd, fel yr amlinellir yn adran 4.6 o'r adroddiad, yn cael ei hychwanegu at Drwydded Yrru ddeuol Cerbyd Hacni/Hurio Preifat. Byddai felly'n cynnwys pob math o faterion perthnasol ac nid euogfarnau troseddol yn unig.

Mae ychwanegu'r amod hon yn gosod cyfrifoldeb ar drwyddedigion i hysbysu'r awdurdod trwyddedu am unrhyw euogfarnau neu euogfarnau / ymchwiliadau sydd i ddod yn ystod cyfnod eu trwydded.

Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr a thrwyddedigion ddarparu tystysgrif feddygol wrth dderbyn ac adnewyddu trwydded. Mae angen tystysgrif feddygol i sicrhau bod gyrwyr mewn iechyd digon da i gynnal diogelwch y cyhoedd ar y ffyrdd. Mae gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat yn destun safonau meddygol uwch na gyrwyr cyffredin. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i adrodd am unrhyw newidiadau yn eu cyflwr meddygol wrth yr Asiantaeth Drwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ar gyfer asesiad i weld a yw hyn yn effeithio ar eu gallu cyfreithiol i yrru'n ddiogel, ond mae'r cynnig hwn hefyd yn gosod cyfrifoldeb arnynt i adrodd am unrhyw newidiadau wrth yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cynnig ychwanegu amod newydd, fel yr amlinellwyd yn adran 4.9 o'r adroddiad, at amodau presennol y Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Mae ychwanegu'r amod hon yn gosod cyfrifoldeb ar drwyddedigion i hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn saith niwrnod am unrhyw newid neu ddirywiad yn eu hiechyd y mae angen hysbysu'r DVLA yn ei gylch.

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu penderfynodd yr aelodau y dylid cynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y newidiadau arfaethedig gyda'r fasnach dacsis a hurio preifat o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 4 Hydref 2022 a 27 Rhagfyr 2022 ac ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion.

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn penderfynu:

1. Diwygio amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i gynnwys yr amodau a nodir yn adrannau 4.3, 4.6 a 4.9 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno i'r diwygiadau arfaethedig fel y'u hamlinellwyd ac y'u hargymhellwyd yn yr adroddiad.

17. EITEMAU BRYS

Dim

| | |
|---|---|
| **Meeting of:** | **LICENSING COMMITTEE** |
| **Date of Meeting:** | **24 MAY 2023** |
| **Report Title:** | **APPOINTMENT OF LICENSING SUB- COMMITTEE(S) AND DELEGATIONS TO OFFICERS** |
| **Report Owner / Corporate Director:** | **CHIEF OFFICER – LEGAL AND REGULATORY SERVICES, HR AND CORPORATE POLICY** |
| **Responsible Officer:** | **YVONNE WITCHELL**<br>**TEAM MANAGER LICENSING** |
| **Policy Framework and Procedure Rules:** | **The report content has no direct effect upon the policy framework and procedure rules.** |
| **Executive Summary:** | **To propose the membership of the Licensing Committee and Sub-Committees following the Annual Meeting of Council 2023.** |

**1. Purpose of Report**

1.1 The purpose of this report is to propose the membership of the Licensing Committee Sub-Committees following the Annual Meeting of Council 2023.

**2. Background**

2.1 At their meeting on 17 May 2023, Council received a report establishing the membership of the Licensing Act 2003 Committee and the Licensing Committee.

**3. Current situation / proposal**

3.1 The range of functions is set out within the Council's Constitution in Part 3 - Responsibility for Functions, relating to the Licensing Committee and Sub-Committees. These functions include taxi licensing, street trading, and other general licensing regimes as required. A separate report is being submitted in respect of the authority's Licensing Act 2003 and Gambling Act 2005 functions.

3.2 It is proposed that the Licensing Committee continues with the existing arrangements and approves the formation of two panels sitting on a rota basis, each consisting of seven Members of the Licensing Committee and chaired by the Chairperson and Vice Chairperson of the Licensing Committee where possible.

3.3 In the event that the Chair or Vice Chair are not able to attend their respective sub-committee meeting, a chair will be elected from those in attendance.

**4. Equality implications (including Socio-economic Duty and Welsh Language)**

4.1 An initial Equality Impact Assessment (EIA) screening has identified that there would be no negative impact on those with one or more of the protected characteristics, on socio-economic disadvantage or the use of the Welsh Language. It is therefore not necessary to carry out a full EIA on this policy or proposal.

**5. Well-being of Future Generations implications and connection to Corporate Well-being Objectives**

5.1 The well-being goals identified in the Act were considered in the preparation of this report. It is considered that there will be no significant or unacceptable impacts upon the achievement of well-being goals/objectives as a result of this report.

**6. Climate Change Implications**

6.1 There are no Climate Change Implications arising from this report.

**7. Safeguarding and Corporate Parent Implications**

7.1 There are no Safeguarding and Corporate Parent Implications arising from this report.

**8. Financial Implications**

8.1 There are no Financial Implications arising from the report.

**9. Recommendations**

9.1 The Committee is recommended to:

- Approve the formation of two panels sitting on a rota basis, each consisting of seven Members of the Licensing Committee and chaired by the Chairperson and Vice Chairperson of the Licensing Committee where possible. In the event that the Chair or Vice Chair are not able to attend their respective sub-committee meeting, a chair will be elected from those in attendance. These Licensing Sub-Committees will undertake licensing functions, including taxi licensing and street trading as set out in the Council’s Constitution.

**Background documents**

**None**